# Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 1af, 2021

**Presennol:** Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Elin Hedd, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw *(Clerc)*.

**Cyflwyniad:** Croesawyd Julian Birley i adrodd ar ddatblygiadau Rheilffordd Llyn Tegid a llongyfarchwyd ef ar y digwyddiad diweddar yn cyflwyno'r rheilffordd i'r gymuned. Mae'r cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri ar ddiwedd y mis a gobeithir cael ateb erbyn y Nadolig. Gwariwyd hefyd ar waith ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Codwyd arian sylweddol iawn mewn byr amser eleni trwy gyfraniadau o De Affrica, y Swistir, Ffrainc, UAE ac oddi wrth bobl dros y DU gyfan. Mae'r gefnogaeth ariannol hon i'r cynllun yn arwyddocaol iawn, meddai. Mae angen prynu dau ddarn bychan o dir eto. Diolchodd am gefnogaeth Cynghorydd Dilwyn Morgan a Chyngor Gwynedd i'r cais "lefelu fyny" gan Lywodraeth y DU.

Holwyd lle bydd y trên yn croesi'r ffordd wrth bont Mwnwgl y Llyn. Atebodd y bydd yn croesi wrth giât mynedfa bresennol y rheilffordd ac y bydd yn mynd fyny i'r hen bont. Mae hyn yn parhau o dan drafodaeth gydag Adran y Priffyrdd. Pwysleisiodd y bydd y cynllun yn lleihau'r problemau parcio yng nghyffiniau pont Mwnwgl y Llyn gan y bydd y parcio yn symud i'r Bala.

Wrth ddiolch yn gynnes iddo am ei waith gyda'r prosiect cynhyrfus hwn, cododd y Maer bryderon lleol am brinder y Gymraeg, yn arbennig ar wefannau cymdeithasol y Rheilffordd. Atebodd Mr Birley fod gwefan Gymraeg ar gael, a bod yr arwyddion yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Ond roedd yn cydnabod nad oedd llawer o Gymraeg ar hyn o bryd ar y gwefannau cymdeithasol gan mai gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am y rheiny. Byddai'n croesawu'n fawr iawn unrhyw gymorth gyda'r Gymraeg gan ei fod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg.

Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod Cyngor Gwynedd wedi adnabod y prosiect hwn fel un o werth economaidd uchel, ac roedd yn falch bod Hannah Joyce yn gweithio ar y cais i'r gronfa "lefelu fyny". Diolchodd hefyd am y gwaith a wnaeth y Rheilffordd gyda disgyblion Ysgol O M Edwards.

1. **Croesawyd yr aelodau gan y Maer, O Rhys Evans.** Dywedodd mai mis tawel a fu ar y cyfan. Diolchodd i gwmni Spar am yr uwchraddiad. Diolchodd hefyd am y sylw a ddaeth i SO58 gydag erthygl dda iawn yn Nation Cymru. Llongyfarchodd Sarah Green o Gorwen, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Y Berwyn, ar gael ei hethol yn Aelod Seneddol Chesham ac Amersham yn ddiweddar. Diolchodd iddi am gymryd y llw yn Gymraeg yn y Senedd. Roedd hyn yn brawf o'r addysg wych a gynigir yn lleol.

   Derbyniodd ymddiheuriadau'r Dirprwy Faer Sharon Evans, Eifion Roberts, Heledd Roberts a Carol Rowlands.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 3ydd, 2021.

4. **Materion y Clerc:** Adroddwyd nad oedd rheolau presennol Covid yn caniatáu mwy na deg person i gyfarfod yn Yr Henblas. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu fod darpariaeth dechnegol yn cael ei ddarparu hefyd os ydyw cyngor yn cyfarfod mewn ystafell/neuadd.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Mae'r fainc newydd a ddifrodwyd gan lori Bargain Booze yn ei lle ond mae'n dal i ddisgwyl bollards yno. Mae'n delio gyda phroblemau parcio wrth droi mewn i Blaenddol yn ymyl y fflatiau. Mae wedi datgan diddordeb Y Bala mewn 2 mainc cyfeillgarwch, sy'n arwyddo fod rhywun yn eistedd yno yn barod am sgwrs. Mae wedi archebu arwyddion i geisio atal parcio dros nos ar gyfer pob arosfan yn yr ardal. Mae wedi tynnu sylw at fannau penodol yn y dref megis y Clwb Rygbi a'r ffordd sy'n arwain at y ffordd osgoi. Nid oes son am osod bariau uchder i atal mynediad at gulfannau. Mae'n bryderus am y nifer o ddamweiniau oherwydd goryrru ar yr A494 dros bont Tryweryn. Mae'n sefyllfa hynod beryglus i gerddwyr ar y llwybr. Yn wir, mae'r goryrru yn cychwyn cyn i gerbydau adael y dref. Cytunwyd i anfon at NMWTRA unwaith eto am hyn.

   Diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ei adroddiad. Dywedwyd fod goryrru yn fater pryderus yn y dref yn gyffredinol a nodwyd Heol Tegid, Cysgod y Coleg a Maes y Bronnydd lle cafwyd cwynion yn ddiweddar. Roedd y Cyngor yn awyddus iddo dynnu sylw Cyngor Gwynedd at y broblem hon a chytunwyd i roi'r mater goryrru yn y dref ar Agenda mis Medi i'w wyntyllu ymhellach.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry. Nodwyd fod eiddew wedi ei dorri o amgylch rhai coed mawr; mae'n bosib mai mesur i ddiogelu'r coed yw hyn.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiad is-bwyllgor y Nadolig a chytunwyd gyda'r argymhellion gwario o fewn y gyllideb o £2000. Ceisir prisiau Cyngor Gwynedd am ddarparu garlantau ar bolion lamp.

   Adroddodd Tony Parry iddo fynychu cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Chwaraeon. *Mae Bala and Penllyn Sports Association* yn newid ei enw i Gymdeithas Gymunedol Y Bala a Phenllyn.

*8.* **Materion Cynllunio**:

   Cadarnhawyd Ymgynghoriad e-bost pryd y cymeradwywyd :

   i. Gosod pwynt gwefru cerbydau trydan, piler bwydo a gwaith cysylltiedig ym Maes parcio ger Y Grîn, Y Bala.
   ii. Estyniad unllawr ar flaen yr eiddo Llygad y Llyn, 6 Maes Treflyn, Bala. LL23 7YZ

   Cymeradwywyd: **NP5/53/581** 32 Bro Eryl, Bala LL23 7AS Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn

9. **Materion Cyllid:**

   **i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

   **ii.** Cytunwyd i dalu anfonebau arferol y mis: Glanhau Llochesi; Cyflog; TWE

   iii. Nid oedd ceisiadau am gefnogaeth ariannol.

10. **Gohebiaeth:** *(e-bostiwyd at yr aelodau)*

   i. Cytunwyd i gefnogi ymgais gan Gyngor Cymuned Pistyll i Gyngor Gwynedd lunio strategaeth parthed parcio dros nos.
   ii. Cefnogwyd neges oddi wrth Gyngor Tref Nefyn parthed Creu Memorandwm o Ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith; bydd y Clerc a'r Maer yn mynychu'r cyfarfod rhithiol pan ddaw gwybodaeth i law.
   iii. Derbyniwyd gwybodaeth gan Hannah Joyce parthed Cynllun Glannau, sy'n cynnwys cais Rheilffordd Llyn Tegid am arian. Roedd balchder bod Y Bala wedi cael ei adnabod ar gyfer Cynllun Glannau.
   iv. Nodwyd derbyn ymgynghoriad ar Gymwysterau Clercod, ond nid yw'n berthnasol i Gyngor Tref Y Bala gan nad ydyw dwy ran o dair y Cynghorwyr wedi ennill sedd trwy etholiad.

11. **Partneriaeth Penllyn:** Nid oedd dim ymhellach i'w adrodd o dan amgylchiadau presennol Covid.

12. **Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd neges gan Carol Rowlands bod eu cyflwr yn dderbyniol, a diolchwyd iddi am arolygu'r asedau mor rheolaidd.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

   i. Mainc Blaenddol: addawodd Cynghorydd Dilwyn Morgan i chwilio am y fainc golledig ar fyrder a threfnu ei bod yn cael ei gosod ar y daith rhwng y dref a Chysgod y Coleg erbyn mis Medi.
   ii. Wardeiniaid Traffig: cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i holi pa mor aml maent yn mynychu'r Bala mewn cymhariaeth a threfi eraill.
   iii. Cais am groesfan yn Heol Pensarn: dywedodd y Clerc ei bod wedi holi NMWTRA a bod y cais wedi ei drosglwyddo ganddynt i Lywodraeth Cymru.
   iv. Cytunwyd i anfon neges o ddiolch i Sion Llewelyn am ei wasanaeth arbennig iawn dros 36 mlynedd i'r dre ac i'r ardal. Eisoes, sylwyd mai yn Saesneg yn unig y mae'r cyfarwyddiadau ar y sgript. Cytunwyd i dynnu sylw cwmni Rowlands at hyn am ein consyrn a'r angen am gyfarwyddiadau yn y ddwy iaith.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2/9/21. Lleoliad/cyfrwng yn ddibynnol ar reolau Covid 19.

Amser gorffen: 8.10pm